

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 30 Medi 2021 fel Cyfarfod Rhithiol a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams

Aelodau'n Bresennol:

Marcus Longley	Cadeirydd
Paul Mears	Prif Weithredwr
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol/Is-gadeirydd
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Carolyn Donoghue	Aelod Annibynnol
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a'r Gwyddorau Iechyd (Dros dro)
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros dro)
Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Anna Lewis	Aelod Cyswllt – Cadeirydd y Grŵp Cynghori Clinigol

Eraill yn bresennol:

Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Richard Morgan-Evans	Pennaeth Staff (yn rhannol)
Debbie Bennion	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrso Gweithredol (yn bresennol ar ran
Sallie Davies	Greg Dix)
	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol (yn bresennol ar ran Dom
	Hurford)
Claire Goatson	Rheolwr Ward (Yn rhannol)
Ann Orrells	Uwch Nyrs (Yn rhannol)
Harish Bhat	Ymgynghorydd (Yn rhannol)
James White	Ymgynghorydd (Yn rhannol)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem agenda 1

MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a chydweithwyr yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. Roedd fformat y trafodion ar ei ffurf rithiol hefyd wedi eu **nodi** gan y Cadeirydd.

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf i'r Aelodau Annibynnol Keiron Montague a'r Cynghorydd Philip White. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Keiron a Philip am eu cyfraniadau ar y Bwrdd yn ystod eu tymor yng Nghwm Taf Morgannwg gan ddymuno'r gorau iddynt ar gyfer y dyfodol. **Nododd** aelodau bod cyfweiliadau wedi'u cynnal yr wythnos diwethaf ar gyfer olynydd Keiron a oedd yn aros am benderfyniad terfynol gan y Gweinidog. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y tri Awdurdod Lleol yn ddiweddar i ofyn am enwebiadau ar gyfer Aelod Annibynnol Awdurdod Lleol i gymryd lle'r Cynghorydd White.

Dywedodd y Cadeirydd mai heddiw hefyd fyddai ei gyfarfod olaf ar y Bwrdd cyn iddo ymdeol fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd ac ychwanegodd ei fod am ddiolch yn ddiffuant i'w holl gydweithwyr a oedd wedi ei gefnogi yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd dros y pedair blynedd diwethaf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai Emrys Elias yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd, gan ddechrau ar 1 Hydref 2021 am gyfnod o 18 mis.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gofyn am fyfyrddodau gan y Bwrdd ar ddiwedd y cyfarfod heddiw ynghylch eu barn ar y cyfarfod heddiw er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Nododd aelodau ymddiheuriadau gan:

- Phillip White, Aelod Annibynnol
- Keiron Montague, Aelod Annibynnol
- Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion a Diogelwch
- Dom Hurford, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Dros dro)
- John Beecher, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg
- Cathy Moss, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg

1.3 Datganiadau o Fuddiant

Fel y datganwyd eisoes, dywedodd F Jenkins ei bod hi hefyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

1.4 Gwrando a Dysgu a Rennir – Heriau a Chyfleoedd Covid Stori Staff a Chleifion

Chwaraewyd fideo byr o Pinewood House a oedd yn cydnabod pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu yn ystod cyfyngiadau Covid ac fe ddatblygwyd grŵp ysgrifennu creadigol i ddiwallu'r anghenion hynny. Gwnaed nodiadau ysgrifenedig a rhoddion wythnosol ac fe'u postiwyd nhw allan.

Croesawodd y Cadeirydd y stori gan ychwanegu ei fod yn dda clywed beth sydd gan gleifion i'w ddweud yn eu geiriau eu hunain.

Dywedodd Orrells fod Pinewood House yn lle eithriadol ac ychwanegodd ei bod yn hynod falch o'r staff a'r cleifion yn yr uned. Dywedodd C Goatson fod y ddau glaf am adrodd eu straeon eu hunain gan ychwanegu fod cynhwysiant cymdeithasol yn allweddol i'r cleifion yn yr uned.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r uned beth amser yn ôl ac roedd o'r farn bod lleoliad yr uned yn ased gwych a chanfu fod ymdeimlad o gynhesrwydd, adferiad ac awyrgylch therapiwtig yno. Diolchodd y Cadeirydd i A Orrells a C Goatson am ddatblygu'r stori.

Penderfyniad: **NODWYD** Stori'r Claf.

2 AGENDA CANIATÂD

Cadarnhaodd yr Aelodau nad oedd unrhyw adroddiadau yr oeddent am eu symud o'r Agenda Caniatâd i'r Brif Agenda.

3.1 I'W CYMERADWYO

3.1.1 Cofnodion heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021

Penderfyniad: Cafodd y cofnodion eu **CYMERADWYO** fel cofnod gwir a chywir.

3.1.2 Cofnodion heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021

Penderfyniad: Cafodd cofnodion o'r cyfarfod preifat eu **CYMERADWYO** fel cofnod gwir a chywir.

3.1.3 Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd yn breifat heb eu cadarnhau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021

Penderfyniad: Cafodd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol eu **CYMERADWYO** fel cofnod gwir a chywir.

3.1.4 Adroddiad Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad;
CYMERADWYWYD Gosod y Sêl Gyffredin.

3.1.5 Adroddiadau Blynyddol Pwyllgor y Bwrdd

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiadau.

3.1.6 Adroddiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) – Comisiynu Gwasanaethau Newydd ar gyfer Canolbarth, De a Gorllewin Cymru yn y Dyfodol.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.7 Diwygio'r Rheolau Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.8 Achos Busnes Rhwydwaith Fasgwlaidd De-ddwyrain Cymru

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr Achos Busnes.

3.1.9 Asesiad o Anghenion Fferyllol

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.10 Rheolau Sefydlog WHSSC a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiadau.

3.1.11 Adroddiad Cynllun Dirprwyo

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.2 I'W NODI

3.2.1 Log Gweithredu'r Pwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** y Log Gweithredu.

3.2.2 Adroddiadau Uchafbwyntiau Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Grwpiau Cynghori

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau Uchafbwyntiau.

3.2.3 Adroddiadau Cyd-bwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau Uchafbwyntiau.

3.2.4 Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3.2.5 Adroddiad Blynyddol Safonau Gofal Iechyd

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3.2.6 Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

4. PRIF AGENDA

4.1 Materion sy'n Codi nad ydynt wedi'u hystyried yn y Log Gweithredu

Ni nodwyd unrhyw faterion pellach.

5. LLYWODRAETHU

5.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad i'r aelodau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n effeithio ar y sefydliad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

6 CREU IECHYD

6.1 Y Diweddaraf am Iechyd y Boblogaeth

Cyflwynodd K Nnoaham yr adroddiad i'r Aelodau gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol a geir yn yr adroddiad.

Croesawodd J Sadgrove y buddsoddiad a wnaed yn y gwasanaeth gordewdra a'r gweithgaredd newydd sydd ar waith o ran rhoi'r gorau i ysmegu ac ychwanegodd y byddai'r ddwy elfen hon yn gymorth i gyfrannu at wella iechyd mamau beichiog.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch a oedd angen datblygu cynllun Adfer Covid ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, dywedodd K Nnoaham fod trafodaethau wedi'u cynnal dros yr ychydig fisoedd diwethaf ynghylch adfer iechyd y boblogaeth gan ychwanegu y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r cynnydd a wnaed yn erbyn y rhaglen hon ar yr adeg briodol.

Dywedodd P Mears fod yr Awdurdodau Lleol yn cydnabod yr heriau o ganlyniad i'r pandemig gan ychwanegu fod trafodaethau a gynhaliwyd gyda chydweithwyr Awdurdod Lleol ar agweddau fel gordewdra wedi bod o gymorth mawr ac wedi rhoi llwyfan cadarnhaol i'r Bwrdd Iechyd weithio ohono.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Y wybodaeth ddiweddaraf i'w chyflwyno i'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol am y gwaith sy'n cael ei wneud ar Adfer Iechyd y Boblogaeth.

6.2 Brechiadau Atgyfnerthu Covid

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau gan K Nnoaham.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan N Milligan am y data nad oedd yn ymddangos fel petai'n cydberthyn a gynhwyswyd ar dudalen 6 yr adroddiad, dywedodd K Nnoaham y byddai'n cynnal adolygiad o hyn y tu allan i'r cyfarfod. **Nododd** aelodau ei bod yn amlwg bod y nifer a oedd yn manteisio arnynt yn is mewn ardaloedd o amddifadedd uwch a nad oedd yn cydberthyn â'r hyn a adroddwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch pam y byddai pawb nawr yn cael un dos atgyfnerthu o'r brechlyn Pfizer-BioNTechyn hytrach na'r brechlyn Astra Zeneca, dywedodd K Nnoaham mai'r Pfizer-BioNTech oedd y ffordd orau o ddarparu'r brechlyn yn y Canolfannau Brechu Torfol gan alluogi meddygfeydd teulu i ganolbwyntio ar ddarparu eu triniaeth arferol i gleifion.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Adolygiad i'w gynnal o'r wybodaeth a gynhwysir ar dudalen 6 yr adroddiad nad oedd yn ymddangos fel petai'n cydberthyn.

6.3 Cynlluniau'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Dyfodol

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau gan L Prosser.

Rhoddodd J Sadgrove wybod ei fod yn bwysig bod y Bwrdd yn deall gwaith y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan annog Aelodau'r Bwrdd i ymweld â gwefan y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a oedd yn llawn gwybodaeth ac yn darparu dolenni i wneud cyfraniadau i'r asesiad o anghenion y boblogaeth sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch a fyddai'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar y mater hwn, argymhellodd L Prosser y byddai diweddariad yn cael ei rhoi i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol, ar adeg briodol yn y dyfodol, i gael rhywfaint o fyfyrion gan L Prosser ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam
Gweithredu: Diweddariadau ddwywaith y flwyddyn i'w darparu i'r Bwrdd mewn perthynas â'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cam
Gweithredu: Myfyrio pellach i'w ddarparu mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol am effeithiolrwydd y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

7. GWELLA GOFAL

7.1 Adroddiad Ansawdd

Cyflwynwyd yr adroddiad gan D Bennion.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â'r grŵp goruchwyllo yn symud o gyfarfodydd wythnosol i gyfarfodydd misol ac aelodaeth y grŵp, dywedodd G Robinson fod penderfyniad wedi'i wneud i symud i gyfarfodydd misol gan fod ychydig o welliannau'n cael eu gweld ac roedd rhythm y rhaglen yn effeithio ar staff yn ymgymryd â'r gwaith yr oedd angen ei wneud. **Nododd** aelodau bod cyfarfodydd ffrwd waith wythnosol yn digwydd o dan fwrdd y rhaglen. Dywedodd G Robinson fod adolygiad diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi golygu bod angen cynnal adolygiad pellach o strwythur y rhaglen a bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod adroddiadau wythnosol i'r Tîm Gweithredol ar waith o safbwynt sicrwydd. **Nododd** aelodau bod adolygiad wythnosol o'r cynnydd hefyd yn cael ei gynnal gyda thîm y Grŵp Ardal Integredig.

Nododd aelodau bod adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl o fewn y Bwrdd Iechyd wrthi'n cael ei gynnal gydag opsiynau a drafodwyd yn ddiweddar gan y Tîm Gweithredol. Dywedodd P Mears y dylai cynnig terfynol fod ar gael o fewn yr wythnosau nesaf.

Mewn perthynas â dwysâd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o Dŷ Llidiard, **nododd** Aelodau bod cyfarfod ar y cyd wedi'i gynnal fis Gorffennaf lle cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu. Ychwanegodd P Mears fod deialog weithredol yn cael ei chynnal gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i gwblhau'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer derbyniadau brys.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.1.1 Adroddiad Uchafbwyntiau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Cyflwynodd J Sadgrove yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith bod y Pwyllgor, yn eu cyfarfod fis Awst, am gynyddu eu pryderon i'r Bwrdd mewn perthynas â gwasanaethau Offthalmoleg o ran ymwybyddiaeth. **Nododd** aelodau bod trafodaeth bellach wedi'i chynnal ar y mater hwn mewn sesiwn Mewn Pwyllgor o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar 29 Medi 2021 lle nodwyd bod cynllun gwella yn y broses o gael ei ddatblygu i'w drafod ym Mwrdd Rheoli

fis Hydref, cyn ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gyfer monitro parhaus.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.2 Dangosfwrdd Perfformiad

Cyflwynwyd yr adroddiad gan G Robinson.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade mewn perthynas â'r cyfeiriad a wnaed ar dudalen 10 yr adroddiad ynghylch rhestrau aros yng Ngrŵp Ardal Integredig Rhondda Taf Elái, cadarnhaodd G Robinson fod gweithgarwch wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod Ebrill a Mai gyda gostyngiad mewn capasiti yn cael ei weld fis Gorffennaf, a oedd yn ymwneud yn bennaf â Gwasanaethau'r Fron.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan P Roseblade mewn perthynas â datganiad a wnaed ar dudalen 18 yr adroddiad, a oedd fel pe bai'n nodi, er gwaetha'r ffaith bod nifer y presenoldebau i'r adran achosion brys wedi gostwng, ymddengys bod y sefyllfa'n gwaethygu o ran perfformiad pedair awr; ac nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi yn yr adroddiad ynghylch perfformiad rhyddhau coch, dywedodd G Robinson fod y gostyngiad mewn perfformiad pedair awr o ganlyniad i dimau'n ceisio mynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion Covid yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst ac ychwanegodd y byddai'n sicrhau bod data ar ryddhau coch yn cael ei gynnwys yn fersiwn nesaf yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan ynghylch pam nad oedd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed ar gyfer y bwndel sepsis a oedd bellach wedi gostwng i gydymffurfiaeth o 52% a'r hyn a oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn, dywedodd G Robinson y byddai'n trafod hyn yng nghyfarfodydd adolygu perfformiad y Grŵp Ardal Integredig ac y byddai'n ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan N Milligan ynghylch perfformiad yn erbyn atgyfeiriadau CAMHS Rhan 1a a oedd bellach yn 14.7% yn erbyn cyfradd darged o 80%, dywedodd G Robinson y byddai angen iddo wirio'r manylion y tu ôl i hyn gan y gallai hyn fod yn fater cofnodi data gan fod gwelliannau mewn perfformiad wedi'u hadrodd yn ddiweddar.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan ynghylch cyfeiriad a wnaed at y recriwtio i ddarpariaeth mewn-gyrraedd yr ysgol a'r disgrifiadau swydd yn barod i'w hysbysebu, cytunodd G Robinson i adolygu'r sefyllfa y tu allan i'r cyfarfod ynghylch pam nad oedd y swyddi wedi cael ei hysbysebu eto gan ychwanegu y gallai hyn fod oherwydd yr amseru ynghylch pryd yr ysgrifennwyd yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan M Jehu ynglŷn â'r datganiad a wnaed ar dudalen 6 yr adroddiad nad oedd unrhyw ddigwyddiadau erioed wedi'u hadrodd a oedd yn anghyson â'r un digwyddiad na adroddwyd erioed ar

dudalen 4 yr adroddiad, dywedodd S Davies na chafwyd un digwyddiad erioed a oedd wedyn yn cael ei ailddosbarthu a'i israddio gan yr Uned Gyflawni.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jehu ynghylch a oedd y 116 o gwynion a adroddwyd ar dudalen 6 yr adroddiad yn nifer cyfartalog y dylid ei ddisgwyl yn ystod mis, cadarnhaodd D Bennion y byddai hyn yn cael ei ystyried yn rhif cyfartalog. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jehu ynghylch pryd yr oedd gwelliannau'n debygol o gael eu gweld, dywedodd G Galletly fod camau'n cael eu cymryd i recriwtio i'r tîm ac ychwanegodd, yn ogystal â cheisio lleihau nifer y cwynion, y byddai angen gwneud gwaith hefyd i sicrhau bod ansawdd yr ymatebion i gwynion ac amseroedd ymateb yn cael eu gwella. Bydd y gwelliannau hyn yn cymryd ychydig fisoedd i fynd i'r afael â nhw ac i fewnblannu gwelliannau.

Cyfeiriodd I Wells at adegau lle nad yw apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn cael eu trefnu a dywedodd, er bod yr adroddiad yn nodi'r prif feysydd risg, nad oedd yr adroddiad yn nodi'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i ddatrys y sefyllfa. Dywedodd G Robinson y byddai angen ailgynllunio llwybr cleifion allanol er mwyn mynd i'r afael â'r materion ac ychwanegodd fod adnoddau bellach yn eu lle i fwrw ymlaen â'r gwaith mewn perthynas â'r prosiect Sylw yn ôl Symptomau a oedd yn rhan o'r Rhaglen Waith Gofal Wedi'i Gynllunio. **Nododd** aelodau bod trafodaethau manwl yn cael eu cynnal yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o ran peidio trefnu apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.

Nododd aelodau bod y cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i ddatblygu'r adroddiad dangosfwrdd perfformiad ymhellach dros y chwe mis nesaf a dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Bwrdd yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd P Mears y byddai angen ystyried faint o wybodaeth yr oedd angen ei chyflwyno i'r Bwrdd ac ychwanegodd fod hyn yn cysylltu'n agos ag archwaeth risg a chynghorodd y gallai fod angen dull hyblyg gan y gallai fod rhai materion y byddai'r Bwrdd yn dymuno cael golwg arnynt yn fwy rheolaidd. Ychwanegodd G Robinson y byddai angen gwneud cryn dipyn o waith datblygu gyda'r Grwpiau Ardal Integredig mewn perthynas ag adrodd ar berfformiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

Cam Gweithredu: G Robinson i sicrhau bod data ar alwadau rhyddhau coch wedi'i gynnwys yn fersiwn nesaf yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Trafodaeth i'w chynnal yng nghyfarfodydd adolygu perfformiad y Grŵp Ardal Integredig ynghylch perfformiad gwael yn erbyn y targed bwndel sepsis. Ymateb i'w ddarparu y tu allan i'r cyfarfod.

Cam Gweithredu: Manylion i'w gwirio y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â pherfformiad gwael yn erbyn atgyfeiriadau CAMHS Rhan 1a i benderfynu a oedd hwn yn fater o gofnodi data.

Cam Gweithredu: Adolygiad i'w gynnal y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â'r ysgol mewn swyddi darpariaeth cyrhaeddiad i benderfynu a oedd y swyddi bellach wedi'u hysbysebu.

7.3 Gwasanaethau Strôc – Datganiad Sefyllfa

Cyflwynodd F Jenkins yr adroddiad ochr yn ochr â'i chydweithwyr J White a H Bhat.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch beth fyddai'r un ymyriad unigol gorau i wella canlyniadau cleifion, dywedodd J White nad oedd un ymyriad yn benodol a fyddai'n gwella canlyniadau i gleifion, fodd bynnag, roedd yn hysbys bod angen derbyn cleifion i ward strôc cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y gofal gorau'n cael ei ddarparu. **Nododd** yr aelodau, o safbwynt newid bywyd, mai mynediad cyflym i thrombectomi oedd un o'r ymyriadau gorau ar gyfer canlyniadau cleifion.

Dywedodd K Nnoaham mai un o'r ymyriadau gorau oedd atal strôc yn y lle cyntaf gan ychwanegu fod canfod ffibriliad atriol yn gynnar yn allweddol o ran atal strôc.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jehu ynghylch gwydnwch staff ar hyn o bryd, dywedodd F Jenkins am yr uchelgais i ddarparu gwasanaeth strôc 7 diwrnod. **Nododd** aelodau nad oedd digon o adnoddau ar waith ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth saith diwrnod ac ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd yn ceisio darparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnodd presennol. **Nododd** aelodau bod Strôc yn faes cymhleth a heriol iawn a bod y staff yn teimlo'n hollol flinedig. Ychwanegodd F Jenkins bod cynllun yn y broses o gael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Estynnodd D Jouvenat ei diolch i F Jenkins a'i chydweithwyr am gyflwyno'r adroddiad gan groesawu'r cynllun gweithredu a oedd yn glir ac yn gryno. Estynnodd D Jouvenat ei diolch hefyd i staff y gwasanaeth am eu holl waith caled.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i J White a H Bhat am fynychu'r cyfarfod a dywedodd fod ymrwymiad cryf iawn gan y Bwrdd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.4 Cofrestr Risg Sefydliadol

Cyflwynodd C Hamblyn yr adroddiad yn nodi'r uchafbwyntiau allweddol. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i C Hamblyn a'i gydweithwyr am y gwaith a wnaed ar yr adroddiad hwn a oedd wedi gwella'n fawr.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch Risg 4203 ac a oedd bellach yn bosibl ailgychwyn mentrau rhestrau aros o ganlyniad i drefniadau diwygiedig y Fenter Rhestrau Aros, dywedodd H Daniel fod hwn

yn fater cymhleth a oedd yn cael sylw ar sail Cymru Gyfan ac ychwanegodd, er ei fod yn cael effaith, nid oedd hyn yn atal y Bwrdd Iechyd rhag ymgymryd â'r gweithgaredd angenrheidiol. Cadarnhaodd G Robinson y bu gostyngiad o 50% mewn gweithgarwch o ganlyniad i'r trefniadau diwygiedig a allai fod o fudd i staff gan eu bod wedi bod yn gweithio nifer o oriau ychwanegol.

Mynegodd y Cadeirydd bryder yn y map gwres a nododd fod 15 risg wedi'u graddio fel rhai sicr o ddigwydd.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** a **NODWYD** yr adroddiad.

7.5 Adroddiad Tair Blynedd Deddf Staff Nyrsio Llywodraeth Cymru (Cymru)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan D Bennion.

Nododd aelodau bod effaith Covid wedi golygu bod 22 o'r 29 ward wedi'u hailwampio er mwyn ateb galw Covid, ac roedd hyn wedi bod yn ymarfer heriol i staff o ran cadw data'n gyfredol a sicrhau bod lefelau staffio'n briodol. **Nododd** aelodau mai dim ond pedwar digwyddiad a gafwyd yn ystod y cyfnod o dair blynedd a oedd yn ymwneud â gostyngiad mewn lefelau staffio ar wardiau.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.5.1 Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) Estyniad i 2^a ddyletswydd y Ddeddf – Cleifion Mewnol Pediatrig ar ôl ei gyfrif fis Awst 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan D Bennion.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan ynghylch sut y byddai Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig yn cael eu defnyddio pe na bai cleifion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cael eu derbyn ar y wardiau, dywedodd D Bennion y byddai angen gweithio ar y manylion ynghylch sut y byddai'r staff hyn yn cael eu cefnogi a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi meysydd eraill.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan P Roseblade ynghylch a fyddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i gymeradwyo rhyddhau'r cyllid sy'n weddill heb wybod y costau cyfle er enghraifft, cadarnhaodd S May fod hyn wedi bod yn rhan o'r cynllun ariannol ac roedd arian wedi'i neilltuo i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Cadarnhaodd P Roseblade ei bod hi'n teimlo'n hapus i'w gymeradwyo o ganlyniad i'r esboniad a roddwyd.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** a **NODWYD** yr adroddiad.

7.6 Rhaglen Gwella Gwasanaeth Newyddenedigol a Mamolaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad gan S Davies.

Atgoffwyd y Bwrdd gan J Sadgrove o'r strwythur craffu manwl a oedd ar waith a oedd yn cynnwys y Bwrdd Gwella Gwasanaeth Newyddenedigol a Mamolaeth ac ychwanegodd y craffwyd yn fanwl ar y sefyllfa hefyd yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.6.1 Uwchgyfeirio Gwasanaethau Newyddenedigol

Cyflwynwyd yr adroddiad gan S Davies.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Sadgrove mewn perthynas â'r ymchwiliad dwfn a oedd yn cael ei wneud o fewn y Gwasanaethau Newyddenedigol ac a fyddai'n ddefnyddiol cael ymgysylltiad uniongyrchol rhwng clinigwyr, dywedodd P Mears na fyddai unrhyw reswm pam na fyddai'r Bwrdd Iechyd yn annog Arweinwyr Newyddenedigol IMSOP i ymgysylltu'n uniongyrchol â chlinigwyr.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.7 Datblygu Strategaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad gan L Prosser. **Nododd** aelodau bod y cylch cyntaf o weithdai wedi'u cynnal gyda Chlinigwyr lle cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r meysydd yr oedd angen canolbwyntio arnynt yn fanylach.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i L Prosser am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.8 Proses Hunanasesu Gwelliant Parhaus mewn ymateb i Ymyrraeth wedi'i Thargedu

Cyflwynwyd yr adroddiad gan R Morgan-Evans. **Nodwyd** gan aelodau bod cynnig yn cael ei wneud i hunan-sgorio bob pedwar mis yn hytrach na phob dau fis a nodwyd y byddai'r adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Ionawr 2022 i'w gymeradwyo.

Penderfyniad: **CYMERADWYD** yr adroddiad ac fe **GEFNOGWYD** y cynnig i newid amllder hunan-sgorio i bedwar mis.

7.9 Adroddiad Uchafbwyntiau'r Grŵp Cyngori Clinigol Awst 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan A Lewis. **Nodwyd** gan aelodau bod trafodaeth wedi'i chynnal yng nghyfarfod mis Awst mewn perthynas â gofal iechyd cynaliadwy a'r Strategaeth Werdd. **Nodwyd** gan aelodau bod nifer yr unigolion o fewn y sefydliad yn gwneud cynnydd da wrth geisio lleihau'r ôl troed carbon o fewn y sefydliad ac roedd angen cydnabod a dathlu hyn.

Dywedodd L Prosser fod digwyddiad cyfathrebu'n cael ei gynllunio ar gyfer diwedd Hydref lle byddai safle'r fewnrwyd yn cael ei lansio. Byddai apêl i hyrwyddwyr lleol fwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn hefyd yn cael ei wneud ac fe fyddai hyn yn cael ei groesawu gan Glinigwyr.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn elfen allweddol o genhadaeth y Bwrdd Iechyd i wella iechyd y boblogaeth.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.10 Adroddiad Uchafbwyntiau Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan J Sadgrove gan dynnu sylw at beth cynnydd cadarnhaol i'r Bwrdd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Uchafbwyntiau.

7.11 Gofal Busnes LINC – Diweddariad Llafar

Cyflwynodd L Prosser ddiweddariad llafar i'r Aelodau a dywedodd fod y cynnig i fuddsoddi mewn rhwydwaith gwybodaeth labordy fel rhan o ymarfer caffael cenedlaethol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei sesiwn preifat a gynhaliwyd yn gynharach heddiw.

Penderfyniad: **NODWYD** y diweddariad.

8. YSBRYDOLI POBL

8.1 CTM – Dod yn Sefydliad Ymgysylltu

Cyflwynwyd yr adroddiad gan L Leyshon.

Estynnodd N Milligan ei diolch i L Leyshon am gyflwyno'r adroddiad a oedd yn cynnwys cryn weledigaeth ac uchelgais gan awgrymu bod angen i'r adroddiad gyfeirio mwy at staff er mwyn adeiladu ar ymddiriedaeth a champau gweithredu. Awgrymodd N Milligan hefyd fod angen defnyddio mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r canmoliaeth sy'n cael eu derbyn o fewn y Bwrdd Iechyd ac nid y pryderon yn unig. Cytunodd L Leyshon i fynd i'r afael â'r ddau bwynt hyn a godwyd.

Nododd aelodau y byddai P Mears a M Jehu yn ymweld eto ag un o'r cymunedau yng Nghwm Taf Morgannwg gan **nodi** y byddai angen datblygu model mewn perthynas a Cherdded i Ymgysylltu â'r Gymuned yn y dyfodol.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Adroddiad i'w ddiwygio i gyfeirio mwy at staff ac i gynnwys mwy o wybodaeth yn yr adroddiad ar y canmoliaeth sy'n cael ei dderbyn o fewn y Bwrdd Iechyd.

9 CYNNAL EIN DYFODOL

9.1 Diweddariad Cyllid Mis 5 2021-2011

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau gan S May.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd y Grwpiau Ardal Integredig bellach wedi cwblhau eu cynlluniau arbedion 'o'r gwaelod i fyny', dywedodd S May fod angen rhagor o waith ar hyn o hyd ac ychwanegodd fod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r timau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau. Dywedodd G Robinson mai pryderon ynglŷn â'r gallu i gyflawni'r cynlluniau oedd yn parhau i fod yn faes risg i'r Bwrdd Iechyd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

9.1.1 Adroddiad Uchafbwyntiau'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau gan M Jehu gan dynnu sylw at gynnydd yr oedd y Pwyllgor am ei wneud i'r Bwrdd ynghylch sefyllfa ariannol Mis 4. Cadarnhawyd gan S May fod y sefyllfa ym Mis 5 yn gyson â'r hyn a gofnodwyd yn yr adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

10 UNRHYW FUSNES ARALL

Gofynnodd y Cadeirydd am farn Aelodau'r Bwrdd ynghylch 'Sut y gwnaethom ni yn y cyfarfod hwn'. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Teimlwyd ei bod yn fuddiol cael lleisiau clinigol ar y Bwrdd a'i fod yn gyfle da iawn i glywed gan glinigwyr rheng flaen;
- Gofynnwyd y cwestiwn a oedd y Bwrdd yn gofyn y cwestiynau cywir er mwyn mynd at wraidd rhai materion;
- Roedd angen myfyrio ymhellach ynghylch faint o wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd a oedd yn arwyddocaol iawn.

Dywedodd J Sadgrove fod y Bwrdd am ddiolch i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth dros y pedair blynedd diwethaf ac ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi wynebu nifer o heriau ac roedd y Cadeirydd wedi cefnogi'r Bwrdd yn dawel i weithio drwyddynt. Ychwanegodd J Sadgrove fod y Cadeirydd wedi galluogi'r Bwrdd i holi materion yn llawn ac wedi datblygu a chryfhau perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid ac aelodau'r gymuned. Estynnodd J Sadgrove ei diolch i'r Cadeirydd am bopeth yr oedd wedi'i wneud gan ddymuno'r gorau iddo ar ei ymddeoliad.

Diolchodd y Cadeirydd i J Sadgrove am ei geiriau caredig gan ddiolch hefyd i'r Bwrdd a'r holl staff yn y sefydliad a dywedodd ei fod wedi synnu gan y caredigrwydd a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd gan y timau. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod am ddiolch i'r Bwrdd ac Aelodau Annibynnol am eu cefnogaeth yn ystod cyfnodau hynod anodd.

10 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 10:00am ddydd Iau 25 Tachwedd 2021.

11 DIWEDD Y CYFARFOD

Unconfirmed